Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

# Polisi Beichiogrwydd, Absenoldeb Mamolaeth, Tadolaeth ac Absenoldeb

# Cynnwys


1) Cyflwyniad .... 3
2) Cwmpas y Polisi .... 3
3) Datganiad Polisi .... 3
4) Hawliau a Chyfrifoldebau .... 3
5) Ar gyfer myfyrwyr sy'n beichiogi yn ystod eu hastudiaethau .... 4
6) Cefnogaeth i fyfyrwyr sy'n dod yn rhieni a chanddynt gyfrifoldeb am fagu plentyn .... 7
7) Ar gyfer myfyrwyr sydd ar fin dod yn rhieni (e.e. trwy fabwysiadu) .... 7
8) Cwynion .... 7
9) Canllawiau i Staff .... 7
10) Ffynonellau gwybodaeth a chymorth .... 8

## 1) Cyflwyniad

Mae'r polisi hwn yn darparu cyngor ac arweiniad i:

- Fyfyrwyr sy'n beichiogi yn ystod eu hastudiaethau, i'w partneriaid, ac i'r sawl sydd wedi dod yn rhieni'n ddiweddar (e.e. trwy fabwysiadu) ar faterion yn gysylltiedig â beichiogrwydd, mamolaeth, tadolaeth ac absenoldeb mabwysiadu.
- Staff y Brifysgol all fod ganddynt rôl yn cynghori myfyrwyr ar y materion hyn.

## 2) Cwmpas y Polisi

Mae'r polisi hwn yn cynnwys unrhyw fyfyrwraig sy'n beichiogi yn ystod eu hastudiaethau, a myfyrwyr sydd ar fin dod yn dadau. Mae'n cynnwys hefyd unrhyw fyfyriwr sy'n bartner (gan gynnwys partner o'r un rhyw) rhywun sy'n feichiog ac sy'n disgwyl bod yn gyfrifol am y plentyn, ac unrhyw berson sy'n dod yn rhiant (e.e. trwy fabwysiadu) plentyn.

## 3) Datganiad Polisi

Mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb yn ei holl weithgareddau ac mae'n anelu at ddarparu amgylchedd gwaith, dysgu, addysgu ac ymchwil sy'n rhydd o gamwahaniaethu a thriniaeth annheg. Mae'r Brifysgol yn ceisio datblygu arfer gorau wrth gyflawni ei gyfrifoldeb cyfreithiol. Mae Deddf Cydraddoldeb (2010) yn creu dyletswydd i hyrwyddo cydraddoldeb ar gyfer nifer o nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys beichiogrwydd a mamolaeth.

Cred y Brifysgol na ddylai dod yn feichiog neu ofalu am blentyn, ynddo'i hunan, rwystro unrhyw fyfyriwr rhag llwyddo yn eu hastudiaethau. Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i gynnig cymaint o hyblygrwydd ag y bo modd i hwyluso llwyddiant myfyrwyr, gan ofalu nad yw unrhyw fyfyriwr yn dioddef anfantais wrth sicrhau nad yw safonau academaidd yn cael eu peryglu.

Bydd iechyd, diogelwch a lles myfyrwraig feichiog o'r pwys mwyaf ar unrhyw achlysur, a bydd Disgyblaethau Academaidd, Athrofeydd ac Unedau Proffesiynol yn ymdrin â phob myfyriwr y mae'r polisi hwn yn berthnasol iddynt mewn ffordd sensitif, anragfarnol a chyfrinachol. Dim ond aelodau staff y mae angen iddynt gael gwybod am resymau dilys fydd yn cael gwybod am amgylchiadau myfyrwyr ac ar y cyfan, ni fydd hynny ond yn digwydd trwy gael cydsyniad y myfyriwr ymlaen llaw. Fodd bynnag, er mwyn iechyd, diogelwch a lles y myfyriwr, bydd rhai rhaglenni'n gorfod trefnu fod staff yn cael gwybod.

Mae'r polisi'n ymwneud yn bennaf â materion astudio, ond cyfeirir at ffynonellau cymorth a chyngor ar faterion cysylltiol ar ddiwedd y ddogfen.

Mae Atodiad SC17 yn cynnwys ffurflen gymorth sy'n ceisio llywio trafodaethau gyda myfyrwyr adeg beichiogrwydd a mamolaeth. Dylai'r ffurflen hon gael ei llenwi gan y Rheolwr Rhaglen (neu enwebai) a dylid ei chytuno gyda'r myfyriwr.

## 4) Hawliau a Chyfrifoldebau

Mae'r adran hon yn trafod hawliau a chyfrifoldebau i fyfyrwyr, staff a'r Brifysgol.

5) **Ar gyfer myfyrwyr sy'n beichiogi yn ystod eu hastudiaethau**

(i) **Cadarnhau'r Beichiogrwydd**

Dylai myfyrwraig sy'n tybio eu bod yn feichiog weld eu Meddyg Teulu i gadarnhau ei beichiogrwydd cyn gynted ag y gallant. Wedyn dylai'r fyfyrwraig roi gwybod i'w Disgyblaeth Academaidd cyn gynted ag y bo modd fel y gellir trefnu cefnogaeth briodol. Os byddant yn penderfynu terfynu'r beichiogrwydd, neu'n cam-esgor, nid oes rhaid datgelu hynny i'r Brifysgol. Fodd bynnag, dylai myfyrwyr wybod y gall methu â datgelu effeithio unrhyw ddarpariaeth y gallai'r Brifysgol ei gwneud, gan gynnwys cefnogaeth gan staff academaidd a chynghorwyr proffesiynol a/neu gynghorwyr iechyd meddwl. Mae manylion polisi'r Brifysgol ar absenoldebau o astudio i'w gweld yn y Polisi Amgylchiadau Esgusodol:
https://www.uwtsd.ac.uk/cy/swyddfaacademaidd/llawlyfr-ansawdd-academaidd/

(ii) **Cysylltu â'r Brifysgol**

Os bydd myfyrwyr yn bwriadu parhau â'u beichiogrwydd, dylent roi gwybod i'w Disgyblaeth Academaidd (fel arfer y Cyfarwyddwr Academaidd, y Rheolwr Rhaglen, y Tiwtor Personol/Blwyddyn neu'r Goruchwylydd) cyn gynted ag y bo modd. Nid yw'r Brifysgol ond yn gallu darparu ar gyfer y fyfyrwraig os byddant yn rhoi gwybod iddynt eu bod yn feichiog. Er mai'r Cyfarwyddwr Rhaglen, y Tiwtor Personol/Blwyddyn neu'r Goruchwylydd fyddai'r pwynt cyswllt cyntaf gan amlaf, gall y myfyrwyr ddewis siarad yn y lle cyntaf ag aelod arall o staff y maent yn teimlo'n fwy cyfforddus â nhw. Fodd bynnag, dylai myfyrwyr gofio y bydd angen rhoi gwybod i'r Rheolwr Rhaglen neu'r Goruchwylydd.

(iii) **Goblygiadau ar gyfer Astudio**

Bydd aelod o staff y Ddisgyblaeth Academaidd (fel arfer y Rheolwr Rhaglen) yn cyfarfod â'r fyfyrwraig i drafod sut mae'r beichiogrwydd yn debyg o effeithio ar eu hastudiaethau. Efallai y bydd angen iddi gymryd saib o'i hastudiaethau gan ddibynnu pryd mae disgwyl iddi roi genedigaeth, a bydd y fyfyrwraig ynghyd â'r Ddisgyblaeth Academaidd yn penderfynu (1) a oes angen iddi gymryd saib a (2) os felly, am ba gyfnod o amser mae angen i hynny fod. Mae'n rhaid i'r penderfyniad roi ystyriaeth hefyd i ofynion academaidd rhaglen y fyfyrwraig, ac yn benodol felly'r amserlen ar gyfer asesiadau. Efallai y byddai angen i fyfyrwraig sy'n disgwyl rhoi genedigaeth yn agos at gyfnod arholiadau gael cadarnhad gan eu meddyg eu bod mewn cyflwr i sefyll arholiadau. Efallai hefyd y byddai angen amser i ffwrdd i fynd i apwyntiadau meddygol.

Dylai'r Ddisgyblaeth Academaidd, baratoi cynllun (yn ysgrifenedig) yn rhestru unrhyw drefniadau cefnogaeth fydd eu hangen yn ystod beichiogrwydd y fyfyrwraig, a'r amserlen a gytunwyd er mwyn iddynt ailafael yn eu hastudiaethau. (Gweler Atodiad SC17 i weld enghraifft o ffurflen gymorth). Dylai'r fyfyrwraig gael copi o hon, ac felly hefyd aelod(au) perthnasol eraill o staff sydd angen y wybodaeth hon, gan gynnwys, pan fo angen, Byrddau Arholi/Dilyniant). Dylid cael caniatâd y fyfyrwraig cyn trosglwyddo'r wybodaeth hon.

Os yw'r fyfyrwraig yn parhau i astudio yn ystod eu beichiogrwydd, dylent gael cyfarfodydd rheolaidd ag aelod staff o'u Disgyblaeth Academaidd (gan amlaf y Rheolwr Rhaglen) i asesu effeithiolrwydd unrhyw drefniadau cefnogaeth a wnaed. Ble y bo angen, gellir gwneud addasiadau ychwanegol.

Mae myfyrwyr y mae'r polisi hwn yn berthnasol iddynt hefyd yn gymwys i wneud cais ar gyfer Amgylchiadau Esgusodol os allai eu hamgylchiadau effeithio'n andwyol ar eu perfformiad mewn asesiad neu asesiadau neu os ddigwyddodd hynny'n barod.

**(iv) Gwaith maes**

Pan mae'r fyfyrwraig yn bwriadu cymryd rhan mewn gwaith maes yn rhan o'i hastudiaethau, dylai'r Ddisgyblaeth Academaidd sy'n gyfrifol am drefnu'r gwaith maes gynnal asesiad risg o'r beichiogrwydd. Gallai fod risgiau penodol yn gysylltiedig â'r gwaith maes a dylai'r fyfyrwraig drafod hynny'n llawn gyda'r aelod staff priodol. Ni fydd myfyrwyr gan amlaf yn cael cymryd rhan mewn gwaith maes ar ôl 7fed mis y beichiogrwydd.

**(v) Ymarfer dysgu / Profiadau Addysgu Proffesiynol**

Pan mae disgwyl i'r fyfyrwraig wneud cyfnod o ymarfer dysgu / profiadau addysgu proffesiynol, dylai'r Ddisgyblaeth Academaidd sy'n gyfrifol am drefnu'r ymarfer dysgu / profiadau addysgu proffesiynol gynnal asesiad risg o'r beichiogrwydd. Dylai'r fyfyrwraig drafod y risgiau hyn yn llawn gyda'r aelod staff priodol cyn i'r ymarfer dysgu / profiadau addysgu proffesiynol ddigwydd. Ni fydd myfyrwyr gan amlaf yn cael cymryd rhan mewn ymarfer dysgu / profiadau addysgu proffesiynol ar ôl 7fed mis y beichiogrwydd.

**(vi) Profiad gwaith / astudio dramor**

Os yw'r fyfyrwraig yn beichiogi yn y cyfnod yn arwain at, neu yn ystod cyfnod o brofiad gwaith neu flwyddyn astudio dramor, mae'n rhaid iddynt gysylltu â'r Ddisgyblaeth Academaidd i wneud trefniadau priodol i sicrhau bod ei hiechyd yn cael ei ddiogelu a bod ei chynnydd academaidd yn cael ei reoli'n iawn.

**(vii) Ailafael yn eich astudiaethau**

Rhaid i'r fyfyrwyr roi gwybod i'r Ddisgyblaeth Academaidd pan fyddant yn barod i ailafael yn eu hastudiaethau a dylent gynllunio gyda'u Rheolwr Rhaglen neu Oruchwylydd amserlen briodol ar gyfer ailintegreiddio yn eu rhaglen astudio, gan gynnwys y rhaglen arholiadau ac asesu gwaith cwrs. Rhaid i'r fyfyrwraig roi gwybod hefyd i'r Gofrestrfa er mwyn sicrhau bod eu cofnod Prifysgol yn cael ei ddiweddaru i ddangos eu bod wedi ailafael yn eu rhaglen astudio.

**(viii) Iechyd a Diogelwch**

Efallai y bydd rhaid cymryd rhai camau iechyd a diogelwch er mwyn diogelu'r fyfyrwraig a'u baban heb ei eni, a bydd hynny'n arbennig o berthnasol mewn rhai Disgyblaethau Academaidd, (e.e. pan allai'r fyfyrwraig ddod i gysylltiad â chemegau niweidiol neu pe bai disgwyl iddi godi pethau trymion neu ymhél â gweithgaredd egnïol arall). Felly, wedi i'r fyfyrwraig roi gwybod i'w Disgyblaeth Academaidd am eu beichiogrwydd, bydd yr Ysgol yn cynnal Asesiad Risg. Bydd hwnnw'n amlygu unrhyw risgiau posib a allai niweidio'r fyfyrwraig neu eu baban, ac yn rhestru camau y dylid eu cymryd er mwyn lleddfu neu leihau'r risgiau hynny. Dylai restru hefyd unrhyw risgiau a allai ddeillio o unrhyw gyfnod o brofiad gwaith neu waith maes y byddai disgwyl i'r fyfyrwraig eu gwneud.

Mae'r risg mwyaf i faban heb ei eni yn ystod 13 wythnos gyntaf beichiogrwydd ac mae'n bwysig felly fod y fyfyrwraig yn rhoi gwybod i'r Brifysgol cyn gynted ag y bo modd.

Ni ddylai unrhyw fyfyrwraig sydd wedi geni baban ddod yn ôl i'r Brifysgol o fewn pythefnos i'r enedigaeth am resymau iechyd a diogelwch.

**(ix) Ystyriaethau Ariannol**

Dylai myfyrwyr israddedig nodi y bydd arian yn dod i ben fel arfer pan mae'r toriad i astudiaethau yn cychwyn. Awgrymir fod myfyrwyr yn gofyn am gyngor gan eu corff ariannu a/neu Gwasanaethau Myfyrwyr.

Mae polisi ad-daliadau'r Brifysgol yn cynnwys ad-dalu ffioedd dysgu myfyrwyr sy'n ariannu eu hunain neu'n cael eu noddi'n breifat sy'n cymryd toriad i'w hastudiaethau. Dylai myfyrwyr yn y sefyllfa hon gysylltu â'r Adran Gyllid i gael mwy o wybodaeth.

Dylai myfyrwyr ôl-radd a myfyrwyr ymchwil sy'n cael arian oddi wrth gyrff allanol ddilyn y canllawiau ar gyfer eu cynllun penodol nhw, neu gysylltu â'u corff ariannu neu noddwr i gael cyngor pellach.

Rhaid i fyfyrwyr rhyngwladol a chanddynt noddwyr ariannol gysylltu â'u noddwyr a chytuno cynllun gweithredu (megis gohirio eu hastudiaethau / pryd i ailafael yn eu hastudiaethau ac ati). Efallai y byddai'n well gan y myfyrwyr rhyngwladol hynny nad oes ganddynt hawl i dderbyn unrhyw fudd-daliadau mamolaeth yn y DU fynd adref dros gyfnod eu beichiogrwydd. Dylid cofio na fydd y rhan fwyaf o gwmnïau hedfan yn fodlon cludo teithwyr sy'n 7 mis yn feichiog neu ragor, a dylid cofio hynny wrth baratoi cynllun gweithredu. Dylai myfyrwyr rhyngwladol gysylltu â'r Swyddfa Ryngwladol i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion y Brifysgol a gwasanaeth Fisâu a Mewnfudo y DU mewn perthynas â monitro presenoldeb.

Mae'r rheolau budd-daliadau yn wahanol ar gyfer myfyrwyr yr Undeb Ewropeaidd a myfyrwyr rhyngwladol, a dylech ofyn am gyngor gan y Swyddfa Ryngwladol a/neu Gwasanaethau Myfyrwyr neu'r Adran Gwaith a Phensiynau.

**(x) Llety**

Efallai y bydd myfyrwyr sy'n beichiogi tra'n byw yn llety'r Brifysgol yn teimlo nad yw mwyach yn addas am resymau iechyd a diogelwch. Dylech gysylltu â'r Swyddogion Llety perthnasol i gael cyngor.
Er mwyn cael mwy o gymorth a chefnogaeth, trowch at adran 'Ffynonellau Gwybodaeth a Chymorth' ar ddiwedd y ddogfen hon.

**(xi) Babanod/Plant ar y Campws**

Am resymau iechyd a diogelwch, yn ogystal ag er mwyn osgoi tarfu ar ddosbarthiadau neu astudiaethau, ni ddylid dod â babanod a phlant i ardaloedd addysgu neu ddysgu. Rhaid i fyfyrwyr ofalu fod ganddynt drefniadau gofal plant addas ar adegau pan mae disgwyl iddynt fod yn y Brifysgol. Gall myfyrwyr wneud cais i feithrinfeydd y Brifysgol am le gofal plant, er y dylid cofio mai nifer cyfyngedig o leoedd sydd ar gael.

Ni ddylai myfyrwyr ddod â babanod na phlant i'r Brifysgol gan ddisgwyl y bydd unrhyw aelod o'r staff yn cymryd cyfrifoldeb am ofalu am y plentyn tra bod y myfyriwr mewn dosbarthiadau.

Yn naturiol, gall myfyrwyr ddod â babanod a phlant i lecynnau cyhoeddus y Brifysgol, ond ni all y Brifysgol dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am y plentyn yn yr amgylchiadau hynny.

Mae'r Brifysgol yn darparu cyfleusterau newid babanod ar ei champysau. I weld lleoliadau'r cyfleusterau newid, ewch i'r wefan ganlynol: yn y lleoliadau hyn:
https://hwb.uwtsd.ac.uk/pages/studentlife/amenities/childcare

**(xii) Bwydo o’r fron**

Gellir cael gwybodaeth am gyfleusterau bwydo o’r fron yn y Dderbynfa ym mhob campws.

## 6) Cefnogaeth i fyfyrwyr sy’n dod yn rhieni a chanddynt gyfrifoldeb am fagu plentyn

Bydd gan unrhyw fyfyriwr sy’n darganfod eu bod yn mynd i fod yn rhiant, neu unrhyw bartner myfyrwraig feichiog (gan gynnwys partneriaid o’r un rhyw) sy’n disgwyl bod yn gyfrifol am fagu’r plentyn, hawl i ofyn am gael bod yn absennol o’i astudiaethau am gyfnod. Mae hynny’n debygol o gynnwys amser i ffwrdd ar gyfer apwyntiadau meddygol cyn, ac wedi’r, enedigaeth, yn ogystal â chyfnod o absenoldeb cymorth mamolaeth yn union wedi’r enedigaeth. Dylai myfyriwr yn y sefyllfa honno gysylltu â’u Rheolwr Rhaglen neu aelod arall o staff, i drafod hyn. Dylid nodi y bydd angen i’r Rheolwr Rhaglen gael gwybod, hyd yn oed os mai gydag aelod arall o’r staff y cynhelir trafodaethau.

## 7) Ar gyfer myfyrwyr sydd ar fin dod yn rhieni (e.e. trwy fabwysiadu)

Dylai myfyrwyr sydd ar fin dod yn rhieni (e.e. trwy fabwysiadu) roi gwybod i’w Disgyblaeth Academaidd am eu hamgylchiadau cyn gynted ag y bo modd. Gellir gwneud trefniadau i ganiatáu absenoldeb o astudiaethau. Gall hyn amrywio yn ôl oedran y plentyn, y rhaglen astudio dan sylw, ac ar ba adeg yn y sesiwn academaidd y bydd hyn yn digwydd. Unwaith eto, rhoddir gwybod i’r Rheolwr Rhaglen os mai gydag aelod arall o’r staff y cynhelir trafodaethau.

## 8) Cwynion

Gall unrhyw fyfyriwr sy’n teimlo fod y Brifysgol wedi methu cadw at safonau’r polisi hwn wneud cwyn trwy Weithdrefn Cwynion y Brifysgol. Mae honno i’w gweld yn: http://www.uwtsd.ac.uk/cy/swyddfaacademaidd/gweithdrefnau-ar-gyfer-apeliadau-academaidd-cwynion-ac-achosion-eraill-myfyrwyr/

Mae’r weithdrefn hon yn awgrymu y dylid datrys problemau mewn ffordd mor anffurfiol ag y bo modd yn y lle cyntaf. Gall y tîm Gwasanaethau Myfyrwyr hefyd gynnig cyngor diduedd, cyfrinachol i fyfyrwyr yn y sefyllfa hon.

## 9) Canllawiau i Staff

Mae’r adran hon yn cynnig arweiniad ar gefnogi myfyrwyr y mae’r polisi hwn yn berthnasol iddynt, i’w defnyddio gan unrhyw aelod o staff a chanddynt rôl yn cynghori neu’n cefnogi myfyrwyr. Yn ddiwahân, rhaid i staff sicrhau nad yw’r myfyrwyr hynny yn cael eu trin yn llai ffafriol nag unrhyw fyfyriwr arall oherwydd eu hamgylchiadau. Yn unol â chyfrifoldebau cyfreithiol y Brifysgol, dylid bod yn hyblyg ble bynnag y bo modd er mwyn sicrhau bod myfyrwyr yn gallu parhau â’u dysgu. Dylid trin gwybodaeth a roddir gan fyfyrwyr yn gyfrinachol (ac ni ddylid ond ei rhoi i eraill gyda chydsyniad y myfyriwr) a chyda sensitifrwydd. Ni ddylai staff geisio dylanwadu penderfyniad unrhyw fyfyriwr; yn hytrach, dylent gynnig cyngor diduedd.

Pan fydd myfyriwr yn cysylltu ag aelod o staff i drafod unrhyw amgylchiadau y mae’r polisi hwn yn berthnasol iddynt, dylid ymateb o fewn pum niwrnod gwaith a dylid trefnu cyfarfod cyn gynted ag y bo modd wedi hynny (os oes angen un). Os nad yw’r aelod o staff y cysylltodd y myfyriwr ag ef/â hi yn Rheolwr Rhaglen neu Oruchwylydd

y myfyriwr, dylid gofalu er hynny fod y Rheolwr Rhaglen neu Oruchwylydd yn cael gwybod am unrhyw ddatblygiadau. Rhaid i staff roi gwybod i'r myfyriwr am y bwriad hwn.

Er y derbynnir fod rhaid trin pob cais yn unigol, mae nifer o gamau y gellir eu cymryd er mwyn galluogi'r myfyriwr i barhau â'i d/ddysgu. Mae'r rhain yn cynnwys:

- caniatáu cyfnod o absenoldeb o astudiaethau (am gyfnod a bennir ymlaen llaw) ar gyfer yr enedigaeth a chyfnod o amser wedi hynny;

- cyn ac wedi'r enedigaeth, caniatáu cyfnodau o absenoldeb ar gyfer apwyntiadau meddygol, a gwneud trefniadau i'r myfyriwr allu gwneud yn iawn am y dosbarthiadau a gollwyd;

- mae'r Brifysgol yn cydnabod y gall beichiogrwydd a genedigaeth ei gwneud yn anodd i fyfyrwraig gadw at ddyddiadau cau a/neu fynychu arholiadau, ac mewn amgylchiadau o'r fath dylai'r fyfyrwraig ofyn i'r Brifysgol roi ystyriaeth i amgylchiadau o'r fath trwy weithdrefnau amgylchiadau esgusodol y Brifysgol;

- defnyddio polisi a gweithdrefnau'r Brifysgol o ran cymryd toriad i astudiaethau yn ôl y galw;

- ystyried unrhyw geisiadau i gael astudio'n rhan-amser, pan mae hynny'n bosib (er y dylai'r myfyriwr gofio goblygiadau ariannol cymryd cam o'r fath);

- cynnig cymorth i helpu'r myfyriwr i ailintegreiddio yn eu hastudiaethau yn dilyn unrhyw gyfnod o absenoldeb estynedig.

Mae'n bwysig gwrando ar farn a dymuniadau'r myfyriwr, yn hytrach na gweithredu cyfres safonol o drefniadau. Dylai pob penderfyniad a gymerir fod yn seiliedig ar drafodaethau gyda'r myfyriwr.

Er y dylid defnyddio mesur priodol o hyblygrwydd, rhaid bod yn ofalus nad yw safonau academaidd yn dioddef. Rhaid cael cydbwysedd rhwng gofalu na roddir y myfyriwr dan anfantais, a rhoi triniaeth arbennig ormodol.

Nid oes rhaid i'r Brifysgol ganiatáu pob cais a wneir, er y dylid ceisio ymateb i geisiadau rhesymol. Ni ddylid gwrthod ceisiadau yn unig oherwydd eu bod yn rhy gostus i'w gweithredu, er ei bod yn anorfod y bydd hynny'n cael ei ystyried wrth asesu 'rhesymoldeb' cyffredinol cais. Os gwrthodir unrhyw gais, dylid trefnu fod y myfyriwr yn cael y rhesymau dros ei wrthod yn ysgrifenedig.

Pan fod angen gwneud trefniadau penodol ar gyfer myfyriwr y gwnaed trefniadau ychwanegol ar ei ch/gyfer yn barod (e.e. oherwydd anabledd), dylid eu cadw ar wahân er mwyn iddi barhau'n amlwg pa drefniadau sy'n gysylltiedig â pha amgylchiad penodol. Mae hyn yn sicrhau bod y trefniadau hynny ar waith am y cyfnod amser angenrheidiol ac mae hefyd yn dangos y cedwir at y darnau perthnasol o ddeddfwriaeth.

## 10) Ffynonellau gwybodaeth a chymorth

**Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant**

**Llety:**

Jean Thomas 01267 676819 neu 07984 696202
accommodation@pcydds.ac.uk
Huw Thomas 07854 721761 Campws Abertawe

**Gofal Plant:**
Meithrinfeydd y Brifysgol:

Campws Llanbedr Pont Steffan: Meithrinfa Seren
meithrinfaseren@yahoo.com 01570 423426

I gael rhagor o gyngor am ddarpariaeth gofal plant, ewch i'r wefan ganlynol:
https://hwb.uwtsd.ac.uk/pages/studentlife/amenities/childcare

**Gwasanaeth Cwnsela:**
Mae'r wybodaeth ar gael trwy'r Hwb yn
https://hwb.uwtsd.ac.uk/pages/healthwellbeing/support/counselling
studentservices@pcydds.ac.uk

**Gwasanaethau Myfyrwyr:**

| | |
|---|---|
| Campws Caerfyrddin: | 01267 676830 |
| Campws Llanbedr Pont Steffan: | 01570 424876 |
| Campws Abertawe: | 01792 481206 |
| Campws Llundain: | 020 7566 7600 |
| Campws Birmingham: | birminghamstudentservices@pcydds.ac.uk |

(unrhyw ymholiad arall ac ar gyfer myfyrwyr nad ydynt ar y campws) 01267 676830
gwasanaethaumyfyrwyr@pcydds.ac.uk

**Undeb y Myfyrwyr:**

| | |
|---|---|
| Campws Caerfyrddin: | 01267 237794 |
| Campws Llanbedr Pont Steffan: | 01570 422619 |
| Campws Abertawe: | 01792 655400 |

www.tsdsu.co.uk

**Mudiadau cyffredinol:**

**Gov.UK**
Mae gwefan llywodraeth y DU yn darparu gwybodaeth am iechyd, gofal a budd-daliadau yn ystod beichiogrwydd, budd-daliadau i rieni a gwybodaeth am ddarparwyr gofal plant yn eich ardal.
www.gov.uk

**Cymdeithas Cynllunio Teulu**
Mae'n ceisio creu cymdeithas lle y gall pawb wneud dewisiadau gwybodus am ryw, perthnasoedd ac atgynhyrchu. Mae'r wefan yn cynnwys cyngor diduedd am feichiogrwydd, erthyliad a mabwysiadu, ac mae hefyd yn cynnwys rhestr o fudiadau defnyddiol.
www.fpa.org.uk
Llinell Gymorth: 0845 122 8690

**Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol**
Mae'n darparu gwybodaeth am feichiogrwydd, erthyliad, iechyd adeg beichiogrwydd a mamolaeth a gwasanaethau a ddarperir gan y GIG.
www.nhs.uk

**Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr**
Mae'n darparu gwybodaeth a chyngor i fyfyrwyr ac undebau myfyrwyr am gyllid, hawliau a lles myfyrwyr. Mae gwybodaeth i rieni myfyrwyr ar gael ar y wefan, ynghyd ag ymchwil a chyhoeddiadau am fyfyrwyr a chanddynt blant dibynnol.
www.nus.org.uk

(Cofiwch hefyd am swyddfeydd Undeb y Myfyrwyr ar gampysau Caerfyrddin, Llanbedr Pont Steffan ac Abertawe)

**Mudiadau penodol:**

**Adoption UK**
Elusen genedlaethol sy'n cael ei rhedeg gan ac ar gyfer mabwysiadwyr, sy'n darparu gwybodaeth hunangymorth, cyngor, cefnogaeth, hyfforddiant ar bob agwedd ar fabwysiadu a rhianta mabwysiadol.
www.adoptionuk.org.uk
Llinell Gymorth (Cymru): 02920 230319 (Llun-Gwener 10.00yb – 2.30yh)

**Antenatal Results and Choices**
Yr unig elusen genedlaethol sy'n cynnig cefnogaeth a gwybodaeth anghyfeiriol i ddarpar rieni a rhieni mewn profedigaeth trwy gydol ac ar ôl y broses sgrinio a phrofi cyn-geni.
www.arc-uk.org

**Gwasanaeth Cyngor ar Feichiogrwydd Prydain**
Mae'n cefnogi dewis ac iechyd atgenhedlol trwy annog a darparu gwasanaethau fforddiadwy o ansawdd uchel er mwyn osgoi neu derfynu beichiogrwydd dieisiau trwy atal cenhedlu neu erthyliad. Mae hefyd yn cynnig nifer o wasanaethau iechyd atgenhedlol eraill.
www.bpas.org.uk
Ffôn: 03457 30 40 30

**Ymddiriedolaeth Teuluoedd a Gofal Plant**
Mae'n darparu cymorth i rieni ar gyfer magu eu plant, ac mae ganddynt nifer o adnoddau gwahanol i rieni.
www.familyandchildcaretrust.org/

**Y Gymdeithas Camesgoriad**
Mae'n cynnig cefnogaeth a gwybodaeth i unrhyw un a effeithiwyd gan golli baban yn ystod beichiogrwydd
www.miscarriageassociation.org.uk

**SANDS**
Yr elusen geni'n farw a marwolaethau newydd-anedig – mae'n cynnig cefnogaeth i unrhyw un a effeithiwyd gan golli baban ac mae'n cynnal ymchwil i achosion marwolaethau geni'n farw a newydd-anedig.
www.sands.org.uk

Mae'r rhestr o gysylltiadau defnyddiol yn gywir adeg ei chyhoeddi. Sylwer nad yw Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn cymeradwyo nac yn cymryd cyfrifoldeb am y wybodaeth a ddarperir gan fudiadau allanol.